Archwilio Cymru
Audit Wales

# Diweddariad Cynnydd Cynllunio i Ryddhau Cleifion – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4470A2024

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti o ran yr adroddiad hwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Gweithredu argymhellion archwilio blaenorol 8

Atodiadau

Atodiad 1 – dulliau archwilio 12

Atodiad 2 – crynodeb o'r cynnydd yn erbyn ein hargymhellion 2017 14

Atodiad 3 – ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio 16

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Yn 2017, adolygodd yr Archwilydd Cyffredinol gynllunio rhyddhau ar draws yr holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru. Roedd y gwaith hwnnw'n canolbwyntio ar gynllunio strategol, trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gynllunio rhyddhau, a chamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i reoli cynllunio rhyddhau a sicrhau gwelliannau. Canfu ein hadroddiad yn 2017 ar ryddhau cleifion ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd): '**Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau gwella cadarn ar gyfer rhyddhau cleifion a threfniadau rheoli perfformiad cryf ac mae'r perfformiad cyffredinol yn gwella, ond mae lle i wella hyfforddiant ar gyfer aelodau staff ward a'u hymwybyddiaeth o bolisïau a gwasanaethau cymunedol**.' Gwnaethom sawl argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â nhw, sydd wedi'u nodi yn **Atodiad 1**.

2 Yn wreiddiol, roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys gwaith yn ei gynlluniau archwilio lleol yn 2021 i archwilio materion system gyfan sy'n effeithio ar wasanaethau gofal brys ac argyfwng, gan gynnwys rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Arweiniodd pandemig COVID-19 at ohirio'r gwaith hwn a'i adfer yn rhan o'r ffrwd yn 2023. Mae ein gwaith wedi ceisio archwilio a oes gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn amserol. Mae canfyddiadau'r gwaith hwnnw wedi'u nodi mewn adroddiad ar wahân i'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid awdurdodau lleol yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro. Bydd yr adroddiad rhanbarthol ar gael ar ein gwefan unwaith y bydd y Bwrdd Iechyd priodol a phwyllgorau awdurdodau lleol wedi'i ystyried.

3 Fel rhan o'n hadolygiad rhanbarthol, rydym wedi ceisio asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a nodir yn ein hadroddiad cynllunio ar gyfer rhyddhau yn 2017. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau mewn perthynas â chynnydd yn erbyn yr argymhellion. Mae'r dull a fabwysiadwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi'i nodi yn **Atodiad 1**.

4 Rydym wedi ymgymryd â'r gwaith dilynol a'n hadolygiad rhanbarthol ehangach i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod gan gyrff y GIG ac awdurdodau lleol drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth iddynt ddefnyddio adnoddau, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004. Yn ogystal, i gefnogi ein gwaith blaenorol ar gynllunio rhyddhau, cynhyrchwyd Beth yw'r oedi? Rhyddhau cleifion yng Nghymru sy'n nodi materion pwysig y dylai aelodau'r bwrdd gael eu gweld wrth geisio sicrwydd bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn ffyrdd diogel ac amserol. Mae llawer o'r materion a nodwyd yn dal i fod yn berthnasol a dylid eu hystyried ochr yn ochr â chanfyddiadau'r adroddiad hwn.

## Canfyddiadau allweddol

5 Dangosodd data o fis Chwefror 2024, ar draws prif safleoedd ysbytai'r Bwrdd Iechyd, fod 238 o gleifion wedi'u rhyddhau ar ôl oedi o dros 48 awr. Roedd tua 6% o'r achosion o oedi hyn yn ymwneud â materion cynllunio rhyddhau o fewn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cwblhau asesiadau clinigol.

6 Yn gyffredinol, **mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol wrth fynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol, ond mae mwy i'w wneud o hyd, gan gynnwys sicrhau bod y polisi rhyddhau yn gyfredol a bod gweithgareddau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth yn arwain at well dealltwriaeth o dirwedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol**. Gwnaeth ein hadroddiad yn 2017 bedwar argymhelliad a oedd yn nodi chwe cham gweithredu penodol ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Gan nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi derbyn yr argymhellion hyn, canfu ein gwaith dilynol:

- mi wnaed cynnydd yn erbyn un cam gweithredu;
- mae'r gwaith yn dal i fynd rhagddo yn erbyn dau o'r camau gweithredu;
- mae tri o'r camau gweithredu wedi eu gweithredu.

7 Yn benodol, gwelsom fod:

- y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno mecanweithiau i fonitro'r defnydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol ac wedi cymryd camau i wella dealltwriaeth staff o dirwedd gwasanaethau, er nad yw'n glir a yw'r camau hyn yn cael yr effaith a fwriadwyd;
- er bod y polisi rhyddhau wedi'i ddiwygio yn 2020 nid yw'n glir pa effaith a gafodd cyfranogiad cleifion a gofalwyr ar newidiadau, gan nodi hefyd bod y polisi yn hwyr ar gyfer adolygiad pellach a bod angen sicrhau bod y fersiwn ddiweddaraf o'r polisi ar wefan gyhoeddus y Bwrdd Iechyd;
- er bod y Bwrdd Iechyd yn darparu hyfforddiant rheolaidd sy'n ymwneud â chynllunio rhyddhau, canfuom dystiolaeth gyfyngedig ei fod yn monitro cyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant.

8 Mae'r adrannau canlynol o'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau dilynol yn fanylach ac mae **Atodiad 2** yn crynhoi ein hasesiad o gynnydd yn erbyn pob un o'r camau a nodwyd yn ein hadroddiad ar gyfer 2017.

## Argymhellion

9 Mae ein gwaith dilynol a'n hadroddiad rhanbarthol ehangach ar lif cleifion wedi nodi rhai argymhellion newydd ar gynllunio rhyddhau ar gyfer y Bwrdd Iechyd a, lle bo'n berthnasol, ei bartneriaid awdurdod lleol. Mae'r rhain wedi disodli'r argymhellion sy'n weddill o'n gwaith yn 2017 a ddangosir yn **Atodiad 2**.

10 Nodir argymhellion sy'n deillio'n benodol o'r gwaith dilynol hwn yn **Arddangosyn 1**. Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion diwygiedig hyn yn cael ei gofnodi yn **Atodiad 3**. Mae argymhellion sy'n codi drwy ein hadroddiad rhanbarthol ehangach

ar lif cleifion sy'n berthnasol i, ac sydd wedi eu disodli, argymhellion ein gwaith yn 2017 wedi'u nodi yn **Arddangosyn 2**. Dylai'r Bwrdd Iechyd ymateb i'r argymhellion hyn fel rhan o'r gwaith o gwblhau'r adroddiad rhanbarthol.

**Arddangosyn 1: argymhellion newydd sy'n deillio o'r gwaith dilynol hwn**

| Argymhellion | |
|---|---|
| **Dealltwriaeth staff o dirwedd gwasanaethau cymunedol** | |
| A1 | Dylai'r Bwrdd Iechyd asesu a yw gweithgareddau diweddar i gyfeirio at wybodaeth am iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol a symleiddio mynediad ati wedi arwain at well ymwybyddiaeth o dirwedd gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty ar draws gwahanol grwpiau staff. |
| **Adolygu polisi** | |
| A2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y polisi rhyddhau diwygiedig yn cael ei ddiweddaru ar wefan y Bwrdd Iechyd. |
| A3 | Dylai'r Bwrdd Iechyd archwilio datblygu cwrs e-ddysgu ar gyfer cynllunio rhyddhau a fyddai'n fwy hygyrch i staff ward. |
| A4 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod presenoldeb mewn hyfforddiant yn cael ei ddal ar y cofnod staff electronig, er mwyn helpu i fonitro lefelau presenoldeb a sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant. |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

**Arddangosyn 2: argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad rhanbarthol ar gynllunio rhyddhau yn lle'r argymhellion blaenorol yn 2017**

| Argymhellion rhanbarthol | |
|---|---|
| R3 | Dylai'r Bwrdd Iechyd, gan weithio gydag awdurdodau lleol, ddiweddaru ei bolisi rhyddhau er mwyn rhoi eglurder i'r holl staff ynghylch sut y dylai'r broses gynllunio ar gyfer cyflawni weithio ar draws y rhanbarth. Dylai hyn fod yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023, gan nodi rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, a disgwyliadau, ac adlewyrchu'r model Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu. Dylai'r broses o ddiweddaru'r polisi gynnwys cleifion a gofalwyr. |

| Argymhellion rhanbarthol | |
|---|---|
| R4 | Dylai’r Bwrdd Iechyd ymgorffori cylch archwilio rheolaidd i asesu effeithiolrwydd a chysondeb cymhwyso’r polisi rhyddhau a’r rhaglenni hyfforddiant cysylltiedig. |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Adroddiad manwl

## Gweithredu argymhellion archwilio blaenorol

11 Gwnaethom ystyried cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth weithredu ein hargymhellion archwilio yn 2017. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- gwybodaeth am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol (Argymhellion 1a a b);
- adolygu polisi (Argymhelliad 2);
- ymwybyddiaeth staff o bolisïau a llwybrau (Argymhelliad 3);
- hyfforddiant cynllunio rhyddhau (Argymhellion 4a a b).

12 Ar y cyfan, gwelsom fod **y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol wrth fynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol, ond mae mwy i'w wneud o hyd, gan gynnwys sicrhau bod y polisi rhyddhau yn gyfredol a bod gweithgareddau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth yn arwain at well dealltwriaeth o dirwedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol**.

### Gwybodaeth am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol

13 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi:

- datblygu system i alluogi staff i gael gafael ar wybodaeth am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol (Argymhelliad 1a 2017).
- adolygu ystod ac amlder y data a gasglwyd am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol. Er enghraifft, mae amseroedd aros ar gyfer rhai gwasanaethau a'r data amlder ar wasanaethau sydd ar gael drwy gyrff eraill y GIG ac opsiynau tai yn cael eu coladu (Argymhelliad 1b 2017).

14 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno mecanweithiau i fonitro'r defnydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol ac wedi cymryd camau i wella dealltwriaeth staff o dirwedd gwasanaethau, er nad yw'n glir a yw'r camau hyn yn cael yr effaith a fwriadwyd**.

15 Dywed y Bwrdd Iechyd ei fod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff sy'n ymwneud â systemau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol drwy ei fewnrwyd. Mae ganddo bwynt cyswllt cyntaf sy'n darparu gwybodaeth i staff ward, unigolion a'u teuluoedd. Mae un pwynt mynediad ar gyfer atgyfeiriadau wedi'i sefydlu drwy'r Hyb Rhyddhau Integredig ar gyfer atgyfeiriadau i wasanaethau yn ardal awdurdod lleol Caerdydd a Cyswllt Un Fro (C1V) ar gyfer atgyfeirio i wasanaeth yn ardal awdurdod lleol Bro Morgannwg. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ymgorffori gwybodaeth am wasanaethau cymunedol fel rhan o hyfforddiant parhaus i staff ysbytai a chymuned. Felly, rydym yn ystyried bod **Argymhelliad 1a wedi'i weithredu**.

16 Fodd bynnag, canfu ein gwaith maes lefelau amrywiol o wybodaeth ar ehangder gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty ymhlith staff. Roedd staff a oedd yn gweithio allan yn y gymuned, fel therapyddion galwedigaethol cymunedol a staff ysbytai, yn teimlo'n weddol wybodus ynghylch iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

cymunedol. Eto i gyd, dywedodd staff yr ysbyty y buom yn siarad â nhw fel rhan o'n gwaith maes nad oedden nhw'n hyderus bod ganddyn nhw wybodaeth dda am dirwedd y gwasanaethau sydd ar gael y tu allan i'r ysbyty. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym yn ystod ein gwaith maes fod ganddo gynlluniau i gryfhau'r trefniadau hyn, megis drwy benodi rheolwr gweinyddol i reoli gwefan y Gwasanaeth Rhyddhau Integredig a rheolwr llwybr rhyddhau. Nid oeddem yn gallu asesu effaith y camau hyn ar adeg ein gwaith, ac felly rydym yn argymell bod y Bwrdd Iechyd yn ymgymryd â gweithgarwch i asesu a yw'r gweithgareddau hyn wedi arwain at lefelau gwell o ymwybyddiaeth o wasanaethau cymunedol (**Argymhelliad 1 2024**).

17 Er mwyn monitro gwybodaeth am alw a mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol, dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ei fod yn cynnal cyfarfodydd amlasiantaeth rheolaidd. Yn ystod y cyfarfodydd hyn gall y Bwrdd Iechyd adolygu capasiti ac amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau cymorth cymunedol, yn enwedig Timau Adnoddau Cymunedol yng Nghaerdydd a Gwasanaethau Adnoddau Cymunedol Bro Morgannwg. Fel y gwnaethom adrodd yn ein hadroddiad rhanbarthol, mae gan y rhanbarth rai o'r rhestrau aros byrraf ar gyfer pecynnau gofal cartref ac ail-alluogi yng Nghymru. Felly, rydym yn ystyried bod **Argymhelliad 1b wedi'i weithredu**.

## Adolygu polisi

18 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi:

- cynnwys cleifion a gofalwyr yn y broses o ddatblygu a diwygio polisi'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â chynllunio rhyddhau (Argymhelliad 2017 2)

19 Canfuom, **er bod y polisi rhyddhau wedi'i ddiwygio yn 2020, nad yw'n glir pa effaith y mae cyfranogiad cleifion a gofalwyr wedi'i chael ar newidiadau, ac mae'r polisi'n hwyr yn cael ei adolygu ymhellach gyda'r angen i wefan y Bwrdd Iechyd gael ei diweddaru i gynnwys y fersiwn ddiweddaraf**.

20 Ar adeg ein hadolygiad yn 2017, roedd y Bwrdd Iechyd yn bwriadu adnewyddu ei bolisi rhyddhau. Cafodd polisi rhyddhau'r Bwrdd Iechyd ei ddiwygio wedyn ym mis Medi 2020 er ein bod yn nodi bod gwefan y Bwrdd Iechyd hwnnw'n dal i gynnwys fersiwn 2017. Dylai hwn gael ei ddiweddaru (**Argymhelliad 2024**). Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym, yn ystod y broses adolygu, bod y tîm profiad cleifion wedi anfon copïau at y grwpiau Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc i ymgynghori a chwblhau Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Cydraddoldeb. Fodd bynnag, nid oes cofnod o unrhyw newidiadau a wnaed yn sgil yr ymgynghoriad hwn. Ychydig iawn o wahaniaethau sydd rhwng polisi rhyddhau 2017 ac un 2020, ac er bod fersiwn 2020 yn cynnwys adran fach ar ofalwyr a gofalwyr ifanc, nid yw'n glir a gafodd hyn ei lywio gan ei weithgareddau ymgynghori. Ni ddaethom ni o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y polisi dewis llety, sy'n cefnogi'r polisi rhyddhau, wedi'i ddiwygio ers 2017.

21 Roedd disgwyl i'r polisi gael ei adolygu ymhellach yn 2023 sydd eto i'w gwblhau. O ystyried bod nifer o newidiadau wedi bod i gynllunio ar gyfer rhyddhau ers 2020, gan gynnwys cyflwyno'r model Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (D2RA) gan

Lywodraeth Cymru, dylai'r Bwrdd Iechyd flaenoriaethu diweddaru ei bolisi. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau cenedlaethol ar gynllunio rhyddhau ym mis Rhagfyr 2023. Rydym yn argymell, yn ystod y diwygiad nesaf i'r polisi, bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau ei fod yn cynnal cydweithrediad ystyrlon â chleifion a gofalwyr ac yn cofnodi effaith y gwaith hwnnw. Felly, rydym o'r farn bod **camau gweithredu parhaus i fynd i'r afael ag argymhelliad 2 (a ddisodlwyd gan Argymhelliad Rhanbarthol 3 2024).**

## Hyfforddiant ar gynllunio rhyddhau

22 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi:

- ymgymryd â hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn dilyn cwblhau'r polisi rhyddhau diwygiedig i sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio rhyddhau yn deall sut i'w ddefnyddio (Argymhelliad 3 2017);
- archwilio datblygu cwrs e-ddysgu ar gyfer cynllunio rhyddhau a fyddai'n fwy hygyrch i staff ward (Argymhelliad 4a 2017);
- sicrhau bod presenoldeb mewn hyfforddiant yn cael ei ddal ar y cofnod staff electronig, a fydd yn helpu i wella'r broses o fonitro cydymffurfiaeth (Argymhelliad 4B 2017).

23 Canfuom, **er bod y Bwrdd Iechyd yn darparu hyfforddiant rheolaidd sy'n ymwneud â chynllunio rhyddhau, gwelsom dystiolaeth gyfyngedig ei fod yn monitro cyfraddau cwblhau ar gyfer hyfforddiant**.

24 Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym ei fod yn darparu hyfforddiant rheolaidd i staff, gan gynnwys ar gyfer dechreuwyr newydd a hyfforddiant SNAP[1] parhaus ar y ward. Mae'r rhaglenni hyfforddi hyn yn cynnwys gwybodaeth i staff ar sut i gael mynediad at dudalennau perthnasol ar y fewnrwyd sy'n cynnwys polisïau a gwybodaeth am lwybrau a gwasanaethau. Mae staff Gwasanaethau Rhyddhau Integredig y Bwrdd Iechyd hefyd yn darparu arddangosiadau ar sut i gael mynediad at y polisïau ar y fewnrwyd trwy'r weithfan glinigol.

25 Y tu allan i'w ysbytai ei hun, mae'r Bwrdd Iechyd yn dweud ei fod wedi cynnig sesiynau hyfforddi i staff cartrefi gofal, er nad yw'n glir faint o'r sesiynau hyn sydd wedi cael eu darparu na faint o staff sydd wedi'u mynychu. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cynnal gweithdai ar ei raglen 'Ewch â Fi Adre' sydd wedi cynnwys sesiynau ar gyfer staff gwasanaethau cymdeithasol, rheolwyr cartrefi gofal a'r sector gwirfoddol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro faint o sesiynau hyfforddi rhyddhau sydd wedi cael eu darparu ar gyfer dechreuwyr newydd. Fodd bynnag, nid yw'n glir faint o staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Yn ogystal, nid yw cwrs e-ddysgu ar gyfer cynllunio rhyddhau ar gael. Felly, rydym yn ystyried bod **argymhelliad 3 wedi'i weithredu, ni chymerwyd unrhyw gamau ar argymhelliad 4a (a ddisodlwyd gan Argymhelliad 3 2024), ac mae angen**

[1] Dull Anghenion Cymorth ar gyfer Cleifion

**gweithredu parhaus i fynd i'r afael ag argymhelliad 4b (a ddisodlwyd gan Argymhelliad 4 2024).**

26 Yn ogystal, canfu ein hadolygiad rhanbarthol wendidau yn y ffordd y mae'r broses ryddhau yn cael ei chymhwyso, gan gynnwys dogfennau rhyddhau anghyflawn a diffyg dealltwriaeth o wahanol rolau sy'n ymwneud â chynllunio rhyddhau, gan awgrymu bod potensial i fesur llwyddiant hyfforddiant ac ystyried a oes angen newidiadau neu weithgarwch ychwanegol **(Argymhelliad Rhanbarthol 4 2024).**

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 3** yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Roedd y dulliau yn rhan o'r dulliau archwilio a ddefnyddiwyd i gyflawni ein hadolygiad rhanbarthol ehangach.

**Arddangosyn 3: dulliau archwilio**

| Elfen o ddulliau archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Rydym wedi adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Papurau bwrdd a phwyllgor<br>• Cynlluniau gweithredol a strategol sy'n ymwneud â gofal brys ac argyfwng<br>• Diweddariadau ar y rhaglen chwe nod a gofal brys ac argyfwng i bwyllgorau<br>• Gweithdrefn rhyddhau |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom ni gyfweld â'r canlynol:<br>• Uwch Nyrs Rhyddhau Integredig;<br>• Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Acíwt;<br>• Pennaeth Gweithrediadau Gwasanaethau Llif Cleifion a'r Safle;<br>• Pennaeth Gofal Integredig;<br>• Prif Swyddog Gweithredu;<br>• Cyfarwyddwr Gweithrediadau;<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio;<br>• Arweinydd Gweithredol Cynllunio Strategol;<br>• Rheolwr Rhaglen ar gyfer Chwe Nod. |
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi cyfarfod gwelyau yn Ysbyty Athrofaol Cymru<br>Gwnaethom hefyd arsylwi'r unigolyn canlynol:<br>• Cydlynydd Rhyddhau |

| Elfen o ddulliau archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dadansoddiad data | Gwnaethom ddadansoddi'r set ddata oedi wrth ryddhau misol a gyflwynwyd i Weithrediaeth y GIG.<br>Gwnaethom hefyd ddadansoddi data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â'r holl gleifion meddygaeth frys a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 gyda hyd arhosiad yn fwy na 21 diwrnod (ac eithrio'r rhai a fu farw). |
| Adolygiad o nodiadau achos | Gwnaethom adolygu sampl o 20 nodyn achos yn ymwneud â chleifion meddygaeth frys a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 gyda hyd arhosiad yn fwy na 21 diwrnod (ac eithrio'r rhai a fu farw). |
| Hunanasesiad | Gofynnom i'r Bwrdd Iechyd gwblhau a chyflwyno hunanasesiad, gan nodi ei farn ar gynnydd yn erbyn ein hargymhellion ar gyfer 2017. |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Atodiad 2

## Crynodeb o’r cynnydd yn erbyn ein hargymhellion 2017

Mae **Arddangosyn 4** yn nodi’r argymhellion a wnaethom yn 2017 a’n crynodeb o gynnydd

| Argymhellion | Cynnydd |
|---|---|
| **Gwybodaeth am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol** | |
| A1a Datblygu system lle gall staff ward gael gafael ar yr wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol. | **Gweithredwyd** – gweler paragraff 15 |
| A1b Adolygu ystod ac amlder y data a gasglwyd am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol. Er enghraifft, mae amseroedd aros ar gyfer rhai gwasanaethau a’r data amlder ar wasanaethau sydd ar gael drwy gyrff eraill y GIG ac opsiynau tai yn cael eu coladu. | **Gweithredwyd** – gweler paragraff 17 |
| **Adolygu polisi** | |
| A2 Dylai’r Bwrdd Iechyd geisio cynnwys cleifion a gofalwyr pan fydd yn amser llunio’r diwygiadau polisi nesaf. | **Parhaus** – gweler paragraff 21 (a ddisodlwyd gan Argymhelliad Rhanbarthol 2024 2) |
| **Ymwybyddiaeth staff o bolisïau a llwybrau** | |
| A3 Dylai’r Bwrdd Iechyd ymgymryd â hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth unwaith y bydd y polisi rhyddhau drafft wedi’i gwblhau i sicrhau bod yr holl staff sy’n ymwneud â chynllunio rhyddhau yn deall sut i’w ddefnyddio. | **Gweithredwyd** – gweler paragraffau 24 i 25 |

| Argymhellion | Cynnydd |
|---|---|
| **Hyfforddiant cynllunio rhyddhau** | |
| A4a Archwilio datblygu cwrs e-ddysgu ar gyfer cynllunio rhyddhau a fyddai'n fwy hygyrch i staff ward. | **Dim camau gweithredu** – gweler paragraffau 24 i 25 (a ddisodlwyd gan Argymhelliad 3 2024) |
| A4b Sicrhau bod presenoldeb mewn hyfforddiant yn cael ei ddal ar y cofnod staff electronig, a fydd yn helpu i wella'r broses o fonitro cydymffurfiaeth. | **Parhaus** – gweler paragraffau 24 i 25 (a ddisodlwyd gan Argymhelliad 4 2024) |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Atodiad 3

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

Mae **Arddangosyn 5** yn nodi ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion archwilio

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb sefydliadol**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ynghylch y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | Dylai'r Bwrdd Iechyd asesu a yw gweithgareddau diweddar i gyfeirio at wybodaeth am iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol a symleiddio mynediad wedi arwain at well ymwybyddiaeth o dirwedd gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty ar draws gwahanol grwpiau staff. | i. Mae'r sesiynau addysg tîm ward treigl yn gwerthuso gwybodaeth a sgiliau staff yn barhaus i lywio hyfforddiant.<br>Mae nifer o fecanweithiau allweddol ar gyfer hyfforddiant, gan gynnwys:<br>• Swyddogion Pwynt Cyswllt Cyntaf Caerdydd yn gweithio gyda thimau ward<br>• Rhaglen dreigl addysg cynllunio rhyddhau<br>• Cynyddu proffil gwasanaethau rhyddhau<br>ii. Mae'r Hyb Rhyddhau Integredig yn darparu ffynhonnell arbenigedd gwbl ganolog ar yr ystod o adnoddau y tu allan i'r ysbyty i gefnogi pobl i ddychwelyd adref o'r ysbyty. | Eisoes ar waith | Pennaeth Rhyddhau Integredig |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ynghylch y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A2** | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y polisi rhyddhau diwygiedig yn cael ei ddiweddaru ar wefan y Bwrdd Iechyd. | Mae gennym gynllun ar waith i sicrhau bod y polisi yn cael ei ddiweddaru erbyn mis Ebrill 2025 pan fyddwn wedyn yn ychwanegu at wefan y Bwrdd Iechyd. | Mehefin 2025 | Pennaeth Rhyddhau Integredig |
| **A3** | Dylai'r Bwrdd Iechyd archwilio datblygu cwrs e-ddysgu ar gyfer cynllunio rhyddhau a fyddai'n fwy hygyrch i staff ward. | i. Bydd arweinydd dysgu rhyddhau y Bwrdd Iechyd yn archwilio dichonoldeb a chyfle cwrs e-ddysgu. Cafodd hyn ei ystyried cyn COVID-19 ond ni chafodd hyn ei ddatblygu.<br>ii. Mae dysgu yn seiliedig ar ymarfer wyneb yn wyneb eisoes ar waith (gweler A1) | Mehefin 2025 | Pennaeth Rhyddhau Integredig |
| **A4** | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod presenoldeb mewn hyfforddiant yn cael ei ddal ar y cofnod staff electronig, er mwyn helpu i fonitro lefelau presenoldeb a sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant. | Mae gan y Gwasanaeth Rhyddhau Integredig gronfa ddata hyfforddi ar gyfer staff sydd wedi mynychu unrhyw sesiwn sydd wedi'i chyflwyno ynghylch y broses rhyddhau. Yn ogystal, mae hyfforddiant diwrnod llawn (unwaith y mis) hefyd yn cael ei roi ar y cofnod staff electronig.<br>Nid oes unrhyw gynlluniau i gynyddu'r gwaith o gofnodi hyfforddiant, gan fod y gwaith o gadw cofnodion presennol wedi'i asesu fel un digonol ar gyfer gofynion y Bwrdd Iechyd. | Eisoes ar waith | Pennaeth Rhyddhau Integredig |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.